Diwrnod Chwarae 2017

Diwrnod cenedlaethol chwarae

www.playday.org.uk



Diwrnod Chwarae yw'r diwrnod cenedlaethol ar gyfer chwarae yn y DU, a gynhelir fel arfer ar Ddydd Mercher cyntaf mis Awst. Yn ogystal â bod yn ddathliad o hawl plant i chwarae, mae Diwrnod Chwarae'n ymgyrch sy'n pwysleisio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

Cydlynir Diwrnod Chwarae gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Ar bob Diwrnod Chwarae bydd miloedd o blant a phobl ifainc yn mynd allan i chwarae mewn cannoedd o ddathliadau a drefnir yn lleol – o weithgareddau bychan yn y gymuned leol i ddigwyddiadau cyhoeddus anferth.

I ddysgu mwy ac i ymuno yn yr hwyl, ymwelwch â: **www.playday.org.uk**.